Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg |
This document is also available in English

## Ystadegau swyddogol

# Nodweddion cydraddoldeb myfyrwyr a staff mewn darparwyr addysg uwch: 2016/17 i 2022/23

**Dogfen gyfeiriol ystadegau swyddogol:** Sta/Medr/02/2025

**Dyddiad:** 30 Ionawr 2025

**Crynodeb:**

Mae'r cyhoeddiad hwn yn cynnwys dadansoddiad o nodweddion cydraddoldeb myfyrwyr a staff mewn darparwyr addysg uwch yng Nghymru o flwyddyn academaidd 2016/17 i flwyddyn academaidd 2022/23.

**Cyswllt:**

YstadegauAU@medr.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu yn Saesneg
We welcome correspondence in Welsh and in English
Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi
Corresponding in Welsh will not lead to delays.

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**

## Pwyntiau Allweddol

### Myfyrwyr

- Mae cyfran y myfyrwyr ag anabledd wedi cynyddu bob blwyddyn rhwng 2016/17 a 2022/23. Mae'r gyfran wedi cynyddu o 13% yn 2016/17 i 17% yn 2022/23.
- Mae cyfran y myfyrwyr o gefndir ethnig leiafrifol wedi cynyddu ym mhob blwyddyn rhwng 2016/17 a 2022/23. Mae'r gyfran wedi cynyddu o 10% yn 2016/17 i 14% yn 2022/23.
- Mae'r mwyafrif o fyfyrwyr yn fenywaidd. Mae maint y mwyafrif hwn wedi cynyddu o 55% yn 2016/17 i 57% yn 2022/23.

### Staff

- Fe gynyddodd cyfran y staff ag anabledd bob blwyddyn rhwng 2016/17 a 2022/23. Ar gyfer staff academaidd fe gynyddodd y gyfran o 4% i 7% ac ar gyfer staff anacademaidd fe gynyddodd y gyfran o 6% i 10%.
- Mae cyfran y staff o gefndir ethnig leiafrifol wedi cynyddu bob blwyddyn rhwng 2016/17 a 2022/23. Ar gyfer staff academaidd fe gynyddodd y gyfran o 11% i 17% ac ar gyfer staff anacademaidd fe gynyddodd y gyfran o 4% i 6%.
- Mae'r mwyafrif o staff academaidd yn wrywaidd, er bod maint y mwyafrif hwn wedi lleihau ychydig o 53% yn 2016/17 i 52% yn 2022/23. Roedd y mwyafrif o'r staff anacademaidd yn y cyfnod hwn yn fenywaidd. 62% yw maint y mwyafrif hwn yn 2022/23, sydd yr un fath ag yn 2016/17.

## Cyflwyniad

1. Dadansoddiad ysgrifenedig o ddata oedran, rhywedd, anabledd ac ethnigrwydd ar gyfer myfyrwyr a staff mewn darparwyr addysg uwch yng Nghymru yw'r ddogfen hon. Mae'r data sylfaenol ar gael ar wefan Medr.

## Myfyrwyr

### Oedran

#### Sector

2. Y grŵp oedran mwyaf bob blwyddyn oedd y grŵp 18 i 20 oed. Fodd bynnag, mae cyfran yr holl fyfyrwyr yn y grŵp oedran hwn wedi lleihau bob blwyddyn ers 2017/18 ac roedd ychydig yn llai na thraean (32%) yn 2022/23.

3. Mae nifer y myfyrwyr yn y grŵp 25 i 29 oed a'r grŵp 30 oed a throsodd wedi cynyddu bob blwyddyn ers 2016/17. Yn 2016/17 roedd y ddau grŵp oedran hyn ar y cyd yn rhoi cyfrif am oddeutu un rhan o dair (34%) o'r myfyrwyr; cyfran lai na'r grŵp oedran 18 i 20 oed (39%). Yn 2022/23, roedd y twf yn y grwpiau oedran hŷn yn golygu eu bod yn rhoi cyfrif am fwy na dwy ran o bump (45%) ac roedd y grŵp oedran 30 oed a throsodd yn rhoi cyfrif am 30% o fyfyrwyr ar ei ben ei hun.

#### Darparwyr

4. Roedd y sefyllfa ym mhob darparwr AU yng Nghymru'n adlewyrchu patrwm y sector gan mwyaf, er bod gwahaniaethau nodedig mewn rhai darparwyr.

5. Yn y Brifysgol Agored yng Nghymru mae oedran y myfyrwyr yn uwch fel rheol. Yn 2022/23, mae'r rhai 30 oed a throsodd yn rhoi cyfrif am bron i ddwy ran o dair (64%) o fyfyrwyr, gydag un rhan o bump arall (19%) o fyfyrwyr yn 25 i 29 oed. Felly y bu hi fwy neu lai yn y rhan fwyaf o flynyddoedd. Roedd y grŵp 18 i 20 oed yn rhoi cyfrif am 5% neu lai o fyfyrwyr bob blwyddyn.

6. Ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, mae'r twf mewn myfyrwyr ymhlith y grŵp 30 oed a throsodd yn sylweddol uwch nag ar gyfer grwpiau oedran eraill. Yn 2022/23 roedd y grŵp oedran hwn yn rhoi cyfrif am hanner (51%) y myfyrwyr o'i gymharu â thraean (34%) yn 2016/17.

7. Ym Mhrifysgol Wrecsam, roedd twf amlwg yn y rhai 30 oed a throsodd, a gostyngiad graddol yn y rhai 18 i 20 oed rhwng 2016/17 a 2021/22. Rhwng 2021/22 a 2022/23 fe gynyddodd niferoedd y myfyrwyr ym mhob grŵp oedran ac eithrio'r grŵp 17 oed ac iau. Y grŵp oedran 30 oed a throsodd yw'r grŵp oedran mwyaf yn y Brifysgol ac mae'n rhoi cyfrif am 50% o'r myfyrwyr yn 2022/23.

8. Ym Mhrifysgol De Cymru bu gostyngiad cyson yn nifer y myfyrwyr yn y grŵp 18 i 20 oed. Mewn cyferbyniad, gwelwyd cynnydd yn y grwpiau oedran 25 i 29 a 30 oed a

throsodd. Yn 2021/22 tyfodd y grŵp 30 oed a throsodd i fod y grŵp oedran mwyaf yn y Brifysgol o flaen y grŵp oedran 18 i 20 oed ac fe barhaodd hyn yn 2022/23.

## Anabledd

9. Cyflwynir y data lefel sector ar y lefel gydgrynhoi isaf fel y'i casglwyd ar gyfer anabledd myfyrwyr. Fodd bynnag, ar gyfer darparwyr AU, caiff y data ei gydgrynhoi yn y grwpiau canlynol: Anabledd a Dim anabledd hysbys. Y rheswm dros hyn yw er mwyn lleihau'r risg o ddatgelu gwybodaeth am unigolion oherwydd niferoedd bychain.

### Sector

10. Fe gododd nifer a chyfran y myfyrwyr a ddatgelodd anabledd bob blwyddyn. Cododd y nifer o 16,830 i 26,240, cynnydd o 56%. Cododd y gyfran o 13% i 17% rhwng 2016/17 a 2022/23.

11. Ym mhob blwyddyn, y categori anabledd a nodwyd yn fwyaf cyffredin fu 'gwahaniaethau dysgu megis dyslecsia, dyspracsia neu AD(H)D'. Dywedodd 5% o'r holl fyfyrwyr fod ganddynt anabledd o'r categori hwn yn 2022/23.

12. Yr ail gategori anabledd mwyaf cyffredin a nodwyd yw bod â chyflwr, her neu anhwylder iechyd meddwl megis iselder, sgitsoffrenia neu orbryder. Cofnodwyd y categori hwn hefyd ar gyfer 5% o'r myfyrwyr yn 2022/23 a hwn yw'r categori sydd â'r cynnydd mwyaf mewn niferoedd absoliwt rhwng 2016/17 a 2022/23, gan gynyddu o 3,180 i 7,260.

13. Bu cynnydd mawr hefyd ar draws y cyfnod yn niferoedd y myfyrwyr a ddatganodd fod ganddynt gyflyrau lluosog. Mae'r categori hwn wedi cynyddu 155% rhwng 2016/17 a 2022/23.

### Darparwyr

14. Bu nifer o newidiadau i'r modd y casglwyd data yn 2022/23 gyda chofnod myfyrwyr newydd yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) yn cael ei roi ar waith fel rhan o'r rhaglen Dyfodol Data. Ceir rhagor o wybodaeth am Dyfodol Data yn yr adran fethodoleg o'r adroddiad hwn. Fel rhan o Dyfodol Data bu newidiadau i wella'r data ar anabledd a gesglir, gan alluogi darparwyr i ddarparu gwybodaeth ychwanegol ar gyfer myfyrwyr ag anableddau lluosog. Fodd bynnag, ar gyfer 2022/23, roedd effaith amlwg ar y data anabledd ar gyfer dau ddarparwr. Y darparwyr hyn oedd:
    - Prifysgol Abertawe, lle gostyngodd cyfran y myfyrwyr ag anabledd o 15% yn 2021/22 i 8% yn 2022/23. Mae'r ffigwr yr adroddwyd arno'n is na gwir ffigwr y myfyrwyr ag anableddau yn 2022/23. Effeithiwyd yn anffafriol ar y data a gasglwyd ar anabledd wrth roi Dyfodol Data ar waith ac mae disgwyl i ansawdd y data hwn wella eto yn 2023/24.
    - Prifysgol Wrecsam, lle cynyddodd cyfran y myfyrwyr ag anabledd o 13% yn 2021/22 i 22% yn 2022/23. Cadarnhawyd fod hyn yn gywir gyda'r newid a wnaed i'r broses ar gyfer casglu data yn ystod y broses gofrestru wedi arwain

yn ôl pob golwg at ymgysylltu gwell â myfyrwyr a ddywedodd fod ganddynt anableddau.

15. Roedd gan y rhan fwyaf o ddarparwyr gyfran fwy o fyfyrwyr ag anabledd datganedig yn 2022/23 o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol. Yr eithriadau oedd Prifysgol Abertawe a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant; fodd bynnag, fel a nodir uchod, ar gyfer Prifysgol Abertawe nid yw data 2022/23 yn wir adlewyrchiad o nifer y myfyrwyr ag anabledd.

16. Ar gyfer Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, fe leihaodd y gyfran bob blwyddyn rhwng 2016/17 a 2021/22, cyn cynyddu eto yn 2022/23 ond gan ddal i fod islaw ffigwr 2016/17. Er y gyfran leihaol, mae nifer y myfyrwyr ag anabledd datganedig wedi cynyddu bob blwyddyn.

17. Yn 2022/23 roedd cyfran y myfyrwyr ag anabledd hysbys ym mhob darparwr yn amrywio o 7% yng Ngrŵp Colegau NPTC i 28% yn y Brifysgol Agored yng Nghymru.

## Ethnigrwydd

18. Mae'r adran hon yn cwmpasu cefndiroedd ethnig leiafrifol myfyrwyr sy'n hanu o'r DU. Mae cefndiroedd ethnig leiafrifol y cyfeirir atynt yn yr adran hon yn ymwneud â'r holl gefndiroedd ethnig ac eithrio cefndiroedd ethnig gwyn. Mae'r dadansoddiad yn gyfyngedig i fyfyrwyr sy'n hanu o'r DU gan mai dim ond ar gyfer myfyrwyr sy'n hanu o'r DU y mae cofnod myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) yn casglu data ethnigrwydd.

19. Yn 2022/23 fe newidiodd y categorïau a ddefnyddir ar gyfer data cefndir ethnig ac roeddent yn cynnwys dadansoddiad mwy manwl o'r grŵp cefndir ethnig gwyn, gan gynnwys y categorïau 'Seisnig, Albanaidd, Cymreig, Gwyddelig Gogledd Iwerddon neu Brydeinig', 'Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig', 'Gwyddelig', 'Roma' ac 'Unrhyw gefndir Gwyn arall'. Yn y dadansoddiad hwn caiff y grwpiau hyn eu cydgrynhoi gan bod y data ethnigrwydd wedi cael ei gefnlenwi â data o 2021/22 i ymdrin â phryderon ynghylch ansawdd a oedd yn gysylltiedig â lefel y data ethnigrwydd coll yng nghasgliad 2022/23. Oherwydd hyn, nid yw'r wybodaeth fanylach am gefndir ethnig ar gael ar gyfer yr holl fyfyrwyr. Fodd bynnag, caiff y data hwn ei fonitro'n fewnol a byddwn yn adolygu a allwn a sut y gallwn ddangos hwn mewn blynyddoedd yn y dyfodol. Ceir rhagor o wybodaeth am y mater ansawdd ar wefan HESA dan y cyfeirnod Issue ID 22056081.

20. Ar wahân i'r uchod, cyflwynir y data lefel sector ar y lefel gydgrynhoi isaf fel y'i casglwyd ar gyfer ethnigrwydd myfyrwyr. Fodd bynnag, ar gyfer darparwyr AU, caiff y data ei gydgrynhoi yn y grwpiau canlynol: Asiaidd, Du, Cymysg, Arall a Gwyn. Y rheswm dros hyn yw er mwyn lleihau'r risg o ddatgelu gwybodaeth am unigolion oherwydd niferoedd bychain.

21. Gall lefel y myfyrwyr a gofnodwyd ag ethnigrwydd anhysbys effeithio ar ansawdd y data hwn. Ar draws y cyfnod mae lefel y rhai ag ethnigrwydd anhysbys ar lefel sector wedi amrywio rhwng 1% a 2%. Er bod hon yn gyfran gymharol fach o gyfanswm y boblogaeth myfyrwyr, os yw'r myfyrwyr hyn ag ethnigrwydd anhysbys

yn cynnwys cyfran anghymesur o uchel o fyfyrwyr o gefndiroedd ethnig leiafrifol byddai'n arwain at achos amlwg o adrodd ar nifer rhy isel o fyfyrwyr o'r cefndiroedd ethnig hyn.

**Sector**

22. Mae nifer a chyfran y myfyrwyr o gefndir ethnig leiafrifol wedi cynyddu ym mhob blwyddyn rhwng 2016/17 a 2022/23. Mae'r gyfran wedi cynyddu o 10% yn 2016/17 i 14% yn 2022/23.

23. Roedd y tri grŵp ethnig lleiafrifol mwyaf yr un fath ym mhob blwyddyn o 2016/17. Cefndiroedd ethnig cymysg a lluosog oedd y grŵp mwyaf, gyda Du Affricanaidd neu Ddu Affricanaidd Prydeinig yn dilyn, ac yna Indiaidd neu Indiaidd Prydeinig.

24. Rhwng 2016/17 a 2022/23 y grwpiau â'r cynnydd mwyaf oedd:

- Pacistanaidd neu Bacistanaidd Prydeinig – wedi cynyddu 114% i 1,970 o fyfyrwyr yn 2022/23.
- Bangladeshaidd neu Fangladeshaidd Prydeinig – wedi cynyddu 98% i 1,625 o fyfyrwyr yn 2022/23.
- Unrhyw gefndir ethnig arall – wedi cynyddu 106% i 1,740 o fyfyrwyr yn 2022/23.

**Darparwyr**

25. Roedd cyfran y myfyrwyr o gefndir ethnig leiafrifol ym mhob darparwr yn 2022/23 yn amrywio o 4% yng Ngrŵp Colegau NPTC i 22% ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant.

26. Ac eithrio Grŵp Llandrillo Menai, mae cyfran y myfyrwyr o gefndir ethnig leiafrifol wedi cynyddu ym mhob darparwr rhwng 2016/17 a 2022/23.

27. Roedd y cynnydd mwyaf yng nghyfran y myfyrwyr o gefndiroedd ethnig leiafrifol yn y sefydliadau canlynol:

- Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant – 11% yn 2016/17 a 22% yn 2022/23.
- Prifysgol Wrecsam – 6% yn 2016/17 ac 13% yn 2022/23.

28. Yn y mwyafrif o ddarparwyr Addysg Uwch y grŵp ethnig lleiafrifol mwyaf yw Asiaidd yn y rhan fwyaf o flynyddoedd. Yr eithriadau i hyn yw Prifysgol Aberystwyth a'r Brifysgol Agored yng Nghymru lle mai'r grŵp cefndiroedd ethnig Cymysg neu Luosog yw'r mwyaf, ac ym Mhrifysgol Wrecsam lle mai'r grŵp Du yw'r mwyaf.

## Rhyw

29. Yn 2022/23, cyflwynwyd yr opsiwn i gofnodi bod myfyrwyr wedi gwrthod darparu data rhyw, er bod canllawiau HESA yn datgan nad oedd disgwyl iddo fod yn opsiwn diofyn a gyflwynir i fyfyrwyr. Mae hyn yn golygu, yn 2022/23, bod nifer fach (315) o fyfyrwyr lle na ddarparwyd gwybodaeth rhyw, yn wahanol i flynyddoedd cynharach.

### Sector

30. Ym mhob blwyddyn roedd y mwyafrif o fyfyrwyr yn fenywaidd, ac mae'r mwyafrif hwn wedi cynyddu ychydig rhwng 2016/17 a 2022/23. Yn 2022/23 roedd 57% o'r cofrestriadau'n fyfyrwyr benywaidd.

31. Er bod llai nag 1% o fyfyrwyr wedi dweud mai Arall oedd eu rhyw, fe gynyddodd nifer y myfyrwyr yn y grŵp hwn yn sylweddol o 85 yn 2016/17 i 720 yn 2022/23.

### Darparwyr

32. Roedd y sefyllfa ym mhob darparwr AU yng Nghymru'n adlewyrchu patrwm y sector gan mwyaf, lle mae'r mwyafrif o'r myfyrwyr yn fenywaidd. Eithriadau i hyn oedd ym Mhrifysgol Abertawe a Grŵp Colegau NPTC lle'r oedd y mwyafrif o'r myfyrwyr yn wrywaidd trwy gydol y cyfnod. Mae gan Grŵp Colegau NPTC gyfran arbennig o uchel o fyfyrwyr gwrywaidd ar 80% neu fwy bob blwyddyn. Roedd gan Goleg Gŵyr Abertawe fwyafrif o fyfyrwyr gwrywaidd hefyd yn 2021/22 a 2022/23.

33. Yn 2022/23 roedd y mwyafrifoedd ym mhob darparwr yn amrywio o fwyafrif gwrywaidd o 80% yng Ngrŵp Colegau NPTC i fwyafrif benywaidd o 67% yn y Brifysgol Agored yng Nghymru.

34. Prifysgol Aberystwyth oedd â'r gyfran fwyaf o fyfyrwyr â rhyw 'Arall' yn 2022/23 ar 3% o fyfyrwyr.

## Staff

35. Y niferoedd staff a roddir yw’r ffigyrau cyfwerth â pherson llawn yn seiliedig ar boblogaeth contractau staff HESA, sy’n cynnwys y contractau hynny a oedd yn weithredol ar 1 Rhagfyr yn y flwyddyn academaidd berthnasol.

36. Nid yw data sy’n ymwneud â staff annodweddiadol wedi’i gynnwys. Staff annodweddiadol yw’r aelodau hynny o staff y mae eu contractau’n cynnwys trefniadau gweithio nad ydynt yn barhaol, sy’n cynnwys perthnasoedd cyflogaeth cymhleth a/neu’n cynnwys gwaith i ffwrdd o oruchwyliaeth y darparwr gwaith arferol.

37. Yn wahanol i gofnod myfyrwyr HESA, nid yw cofnod staff HESA ond yn casglu data gan yr wyth sefydliad addysg uwch yng Nghymru. Felly nid yw staff yn y sefydliadau addysg bellach a gynhwysir yn yr adran ar fyfyrwyr wedi’u cynnwys yma. Nid yw’r Brifysgol Agored yng Nghymru wedi’i chynnwys ychwaith gan bod y data a gesglir am staff y Brifysgol Agored yn cwmpasu’r Deyrnas Unedig gyfan yn hytrach na Chymru’n benodol.

### Oedran

#### Sector – staff academaidd

38. Y grŵp oedran mwyaf ymhlith staff academaidd ers 2017/18 fu’r grŵp 36 i 45 oed, sy’n rhoi cyfrif am 30% o’r staff academaidd yn 2022/23.

39. Bu gostyngiadau bychain yn nifer y staff yn y grwpiau 26 i 35 oed a 46 i 55 oed rhwng 2016/17 a 2022/23. Fe gynyddodd pob grŵp oedran arall o leiaf 10% dros yr un cyfnod. Roedd y cynnydd canrannol mwyaf yn y grŵp 66 oed a throsodd gyda chynnydd o 16%.

#### Sector – staff anacademaidd

40. Y grŵp 36 i 45 oed oedd y mwyaf ym mhob blwyddyn o 2016/17, gan roi cyfrif am 28% o’r staff anacademaidd yn 2022/23.

41. Ar draws y cyfnod, fe ostyngodd nifer y staff anacademaidd yn y grwpiau 25 oed ac iau a 26 i 35 oed 27% a 5% yn y drefn honno. Bu cynnydd ym mhob grŵp oedran arall gyda’r cynnydd canrannol mwyaf yn y grŵp 66 oed a throsodd a gynyddodd 62%.

#### Darparwyr – staff academaidd

42. Yn 2022/23, roedd tri darparwr lle nad y grŵp 36 i 45 oed oedd y grŵp oedran mwyaf fel a welwyd yn y sector. Y darparwyr hyn oedd Prifysgol Aberystwyth, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant a Phrifysgol Wrecsam lle mai’r grŵp 46 i 55 oed oedd y grŵp oedran mwyaf. Mewn blynyddoedd cynharach, y grŵp 46 i 55 oed oedd y mwyaf i fwy o ddarparwyr, gan gynnwys Prifysgol De Cymru ym mhob blwyddyn tan 2021/22 a Phrifysgol Bangor rhwng 2016/17 a 2019/20.

### Darparwyr – staff anacademaidd

43. Roedd y grŵp oedran mwyaf ymhlith staff anacademaidd yn amrywio ar draws darparwyr a blynyddoedd. Yn y rhan fwyaf o flynyddoedd roedd y grŵp oedran mwyaf ym Mhrifysgol Aberystwyth, Prifysgol Bangor a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn wahanol i'r sector. Y grŵp 46 i 55 oed oedd y grŵp oedran mwyaf ym mhob blwyddyn ers 2017/18 ym Mhrifysgol Aberystwyth a Phrifysgol Bangor, ac ym Mhrifysgol Wrecsam y grŵp 46 i 55 oed oedd y mwyaf yn 2016/17 ond mae hyn wedi newid dros y blynyddoedd nes i'r grŵp 26 i 35 oed dyfu i fod y grŵp mwyaf yn 2021/22 a 2022/23.

## Anabledd

44. Cyflwynir y data lefel sector ar y lefel gydgrynhoi isaf ar gyfer anabledd staff. Fodd bynnag, ar gyfer darparwyr AU, mae'r data wedi'i gydgrynhoi yn y grwpiau canlynol: Anabl a Dim anabledd hysbys. Y rheswm dros hyn yw er mwyn lleihau'r risg o ddatgelu gwybodaeth am unigolion oherwydd niferoedd bychain.

### Sector – staff academaidd

45. Fe gododd nifer a chyfran y staff academaidd a ddatganodd fod ganddynt anabledd bob blwyddyn. Rhwng 2016/17 a 2022/23 fe gododd nifer y staff academaidd ag anabledd datganedig o 430 i 780. Fe gododd cyfran y staff academaidd ag anabledd o 4% i 7%.

46. Y ddau fath o anabledd a oedd fwyaf tebygol o gael eu datgan gan staff academaidd oedd afiechyd neu gyflwr iechyd hirdymor a gwahaniaeth dysgu megis dyslecsia, dyspracsia neu AD(H)D. Gyda'i gilydd mae'r rhain yn rhoi cyfrif am ychydig yn llai na hanner yr holl anableddau a ddatganwyd gan staff academaidd bob blwyddyn. Y rhain hefyd yw'r anableddau lle gwelwyd y twf mwyaf mewn niferoedd absoliwt ers 2016/17.

47. Yn ogystal â'r ddau gategori anabledd uchod, mae nifer y staff sy'n dweud bod ganddynt yr anableddau canlynol wedi mwy na dyblu ers 2016/17:

- Cyflyrau, heriau neu anhwylderau iechyd meddwl (wedi cynyddu 143% o 45 i 115).
- Cyflyrau cymdeithasol/cyfathrebu (wedi cynyddu 567% o 5 i 20).

### Sector – staff anacademaidd

48. Fe gynyddodd nifer a chyfran y staff anacademaidd a ddatganodd fod ganddynt anabledd bob blwyddyn o 2016/17. Fe gododd y nifer o 680 yn 2016/17 i 1,070 yn 2022/23. Fe gynyddodd cyfran y staff anacademaidd ag anabledd o 6% i 10%.

49. Y ddau fath o anabledd a oedd fwyaf tebygol o gael eu datgan gan staff academaidd oedd afiechyd neu gyflwr iechyd hirdymor a bod â gwahaniaeth dysgu megis dyslecsia, dyspracsia neu AD(H)D. Gyda'i gilydd mae'r rhain yn rhoi cyfrif am rhwng 44% a 46% o staff anacademaidd a ddywedodd fod ganddynt anabledd ym mhob blwyddyn.

50. Yr anabledd â'r cynnydd mwyaf mewn niferoedd absoliwt ymhlith staff anacademaidd oedd bod â chyflwr, her neu anhwylder iechyd meddwl. Fe gynyddodd y categori hwn 183% rhwng 2016/17 a 2022/23. Yr unig anabledd arall â chynnydd canrannol mwy ar draws y cyfnod hwn oedd cyflyrau cymdeithasol/cyfathrebu a gynyddodd 350% o 5 i 25.

**Darparwyr – staff academaidd**

51. Fe gynyddodd nifer a chyfran y staff academaidd a ddatganodd fod ganddynt anabledd rhwng 2016/17 a 2022/23 ym mhob darparwr.

52. Yn 2022/23, roedd cyfran y staff academaidd a ddatganodd fod ganddynt anabledd yn narparwyr AU Cymru'n amrywio o 5% ym Mhrifysgol De Cymru i 10% ym Mhrifysgol Bangor.

**Darparwyr – staff anacademaidd**

53. Fe gynyddodd nifer a chyfran y staff academaidd a ddatganodd fod ganddynt anabledd rhwng 2016/17 a 2022/23 ym mhob darparwr ac eithrio Prifysgol Wrecsam.

54. Yn 2022/23, roedd cyfran y staff anacademaidd a ddatganodd fod ganddynt anabledd yn narparwyr AU Cymru'n amrywio o 5% ym Mhrifysgol Wrecsam i 12% ym Mhrifysgol Bangor.

## Ethnigrwydd

55. Mae cefndiroedd ethnig leiafrifol y cyfeirir atynt yn yr adran hon yn ymwneud â'r holl gefndiroedd ethnig ac eithrio cefndiroedd ethnig gwyn. Cesglir data ar gyfer grwpiau ethnig lleiafrifol gwyn Sipsiwn neu Deithwyr ac maent yn y ffigyrau sengl.

56. Cyflwynir y data lefel sector ar y lefel gydgrynhoi isaf ar gyfer ethnigrwydd staff. Fodd bynnag, ar gyfer darparwyr AU, caiff y data ei gydgrynhoi yn y grwpiau canlynol: Asiaidd, Du, Cymysg, Arall a Gwyn. Y rheswm dros hyn yw er mwyn lleihau'r risg o ddatgelu gwybodaeth am unigolion oherwydd niferoedd bychain.

57. Ceir cyfran gymharol uchel o staff y cofnodwyd eu hethnigrwydd naill ai fel ddim yn hysbys, gwell gen i beidio â dweud neu ddim ar gael yn y sector. Mae hyn yn effeithio ar ba mor gynrychiolaidd yw'r data o'r boblogaeth staff gyfan a dylid ystyried hynny wrth ddehongli'r data. Yn 2022/23, roedd 10% o staff academaidd ar draws y sector yn y categori hwn, gyda'r ganran wedi cynyddu'n gyson o 5% yn 2016/17. Bydd yr effaith yn arbennig o amlwg ym Mhrifysgol De Cymru lle cofnodwyd 30% o staff academaidd ag ethnigrwydd anhysbys. Ar gyfer staff anacademaidd mae canran y staff â'r gwerthoedd ethnigrwydd anhysbys hyn wedi amrywio rhwng 2% a 5%, ac roedd yn 4% yn 2022/23.

**Sector – staff academaidd**

58. Mae nifer a chyfran y staff academaidd o gefndir ethnig leiafrifol wedi cynyddu rhwng 2016/17 a 2022/23. O'r staff academaidd yr oedd eu cefndir ethnig yn

hysbys; roedd gan 11% gefndir ethnig leiafrifol yn 2016/17 ac mae hyn wedi cynyddu i 17% yn 2022/23.

59. Ar gyfer pob grŵp cefndir ethnig leiafrifol, mae nifer y staff academaidd wedi cynyddu hefyd. Mae cyfran y staff academaidd o bob grŵp yn uwch hefyd yn 2022/23 nag yn 2016/17.

60. Y grŵp Tsieineaidd neu Tsieineaidd Prydeinig fu'r grŵp cefndir ethnig leiafrifol mwyaf ymhlith staff academaidd ers 2017/18 ac roedd yn rhoi cyfrif am 3% o'r staff academaidd yn 2022/23.

61. Roedd y cynnydd canrannol mwyaf rhwng 2016/17 a 2022/23 yn y grŵp Du Affricanaidd neu Ddu Affricanaidd Prydeinig (cynnydd o 176% o 65 i 185) a'r grŵp Pacistanaidd neu Bacistanaidd Prydeinig (cynnydd o 170% o 40 i 115).

**Sector – staff anacademaidd**

62. Fe gynyddodd nifer a chyfran y staff anacademaidd o gefndir ethnig leiafrifol rhwng 2016/17 a 2022/23. O'r staff anacademaidd yr oedd eu cefndir ethnig yn hysbys; roedd gan 4% gefndir ethnig leiafrifol yn 2016/17 ac fe gynyddodd hyn i 6% yn 2022/23.

63. Ar gyfer pob grŵp cefndir ethnig leiafrifol, mae nifer y staff anacademaidd wedi cynyddu. Mae cyfran y staff anacademaidd o bob grŵp yn uwch hefyd yn 2022/23 nag yn 2016/17 ac eithrio'r grŵp Unrhyw gefndir ethnig arall.

64. Y grŵp cefndiroedd ethnig Cymysg neu Luosog fu'r grŵp cefndir ethnig leiafrifol mwyaf ymhlith staff anacademaidd ers 2017/18 ac roedd yn rhoi cyfrif am 1% o'r staff anacademaidd yn 2022/23.

65. Roedd y cynnydd canrannol mwyaf rhwng 2016/17 a 2022/23 yn y grŵp Du Caribïaidd neu Ddu Caribïaidd Prydeinig (a ddyblodd o 15 i 30) a'r grŵp Du Affricanaidd neu Ddu Affricanaidd Prydeinig (cynnydd o 84% o 40 i 70).

**Darparwyr – staff academaidd**

66. Roedd cyfran y staff academaidd o gefndir ethnig leiafrifol yn 2022/23 yn amrywio o 8% ym Mhrifysgol Aberystwyth i 24% ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant.

67. Rhwng 2016/17 a 2022/23 fe gynyddodd cyfran y staff academaidd o gefndir ethnig leiafrifol mewn pump o'r wyth darparwr. Yn y tri darparwr â lleihad yn y gyfran roedd gwahaniaeth o un pwynt canran neu lai.

68. Ar gyfer yr holl ddarparwyr y cefndir ethnig leiafrifol mwyaf cyffredin ymhlith staff academaidd oedd Asiaidd ym mron pob blwyddyn rhwng 2016/17 a 2022/23.

**Darparwyr – staff anacademaidd**

69. Roedd cyfran y staff anacademaidd o gefndir ethnig leiafrifol yn 2022/23 yn amrywio o 4% ym Mhrifysgol De Cymru, Prifysgol Wrecsam a Phrifysgol Bangor i 8% ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant.

70. Rhwng 2016/17 a 2022/23 fe gynyddodd cyfran y staff anacademaidd o gefndir ethnig leiafrifol ym mhob darparwr.

71. Ar gyfer y rhan fwyaf o ddarparwyr y cefndir ethnig leiafrifol mwyaf cyffredin ymhlith staff anacademaidd oedd Asiaidd yn y rhan fwyaf o flynyddoedd rhwng 2016/17 a 2022/23.

## Rhyw

72. Yn 2022/23, cyflwynwyd yr opsiwn i gofnodi bod staff wedi gwrthod darparu data rhyw, er bod canllawiau HESA yn datgan nad oedd disgwyl iddo fod yn opsiwn diofyn a gyflwynir i staff. Mae hyn yn golygu, yn 2022/23, bod nifer fach (5) o fyfyrwyr lle na ddarparwyd gwybodaeth rhyw, yn wahanol i flynyddoedd cynharach.

### Sector – staff academaidd

73. Roedd y mwyafrif o staff academaidd yn wrywaidd ym mhob blwyddyn rhwng 2016/17 a 2022/23. Mae maint y mwyafrif hwn wedi lleihau ychydig o 53% i 52%.

### Sector – staff anacademaidd

74. Roedd y mwyafrif o staff anacademaidd yn fenywaidd ym mhob blwyddyn rhwng 2016/17 a 2022/23. Roedd maint y mwyafrif hwn yn 62% yn 2016/17, 2017/18 a 2022/23, er ei fod wedi cynyddu ychydig yn y blynyddoedd rhwng hynny.

### Darparwyr – staff academaidd

75. Roedd y mwyafrif o staff academaidd yn wrywaidd ym Mhrifysgol Caerdydd, Prifysgol Abertawe a Phrifysgol De Cymru ym mhob blwyddyn o 2016/17. Bu gan Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant fwyafrif gwrywaidd o staff academaidd ers 2021/22 hefyd.

76. Roedd y mwyafrif o staff academaidd yn fenywaidd ym Mhrifysgol Bangor, Prifysgol Metropolitan Caerdydd a Phrifysgol Wrecsam ym mhob blwyddyn o 2016/17. Roedd mwyafrif benywaidd o staff academaidd ym Mhrifysgol Aberystwyth yn 2022/23 hefyd ar ôl bod â mwyafrif gwrywaidd ym mhob blwyddyn flaenorol ers 2016/17.

77. Yn 2022/23 roedd y mwyafrifoedd mewn darparwyr yn amrywio o fwyafrif benywaidd o 61% ym Mhrifysgol Wrecsam i fwyafrif gwrywaidd o 56% ym Mhrifysgol Abertawe.

### Darparwyr – staff anacademaidd

78. Rhwng 2016/17 a 2022/23 mae’r mwyafrif o staff anacademaidd wedi bod yn fenywaidd ym mhob darparwr ym mhob blwyddyn.

79. Yn 2022/23 roedd meintiau’r mwyafrifoedd hyn yn amrywio o 56% ym Mhrifysgol Aberystwyth i 65% ym Mhrifysgol De Cymru.

## Gwybodaeth am y fethodoleg

### Ffynonellau Data

Daw'r data ar gyfer y datganiad hwn o gofnodion Myfyrwyr a Staff yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) a gesglir gan Jisc.

Yn 2022/23 fe gasglwyd data myfyrwyr gyda'r casgliad data diwygiedig a gyflawnwyd gan y rhaglen Dyfodol Data. Cynhaliodd Jisc asesiad cynhwysfawr o ansawdd y set ddata hon ac fe fanylir ar hwn yn eu hadroddiad ansawdd data myfyrwyr 2022/23. Mae crynodeb o'r broses o gasglu data Myfyrwyr ar gyfer 2022/23 sy'n cwmpasu graddfeydd amser, rheolau busnes a dilysu a phrosesau gwirio wedi'i gynnwys ar wefan HESA. Mae gwybodaeth am ddata myfyrwyr ar gyfer y blynyddoedd cynharach i'w chael ar wefan HESA.

Ceir crynodeb o'r broses o gasglu data Staff a rheolau ansawdd cysylltiedig ar dudalen casglu data staff HESA.

### Cwmpas – Myfyrwyr

Mae'r ystadegau'n cynnwys myfyrwyr sy'n rhan o boblogaeth gofrestru safonol addysg uwch HESA. Ceir rhagor o wybodaeth am y boblogaeth hon yn y diffiniadau myfyrwyr ar wefan HESA.

Mae pob defnydd o 'myfyrwyr' yn y bwletin hwn yn cyfeirio at 'gofrestriadau myfyrwyr'. Cyfrif o bob cofrestriad ar gyfer cwrs yw hyn. Mewn achosion prin lle mae myfyriwr wedi cofrestru mewn dau gwrs gwahanol yn yr un flwyddyn, byddai'r myfyriwr hwnnw'n cael ei gyfrif ddwywaith.

### Cwmpas – Staff

Mae'r ystadegau hyn yn cynnwys staff sydd ym mhoblogaeth contractau staff HESA, sy'n cynnwys yr unigolion hynny sydd ag un neu fwy nag un contract (nad ydynt yn annodweddiadol) sy'n weithredol ar 1 Rhagfyr yn y cyfnod adrodd HESA perthnasol. Staff ar gontract annodweddiadol yw'r aelodau hynny o staff y mae eu contractau'n cynnwys trefniadau gweithio nad ydynt yn barhaol, yn cynnwys perthnasoedd cyflogaeth cymhleth a/neu'n cynnwys gwaith i ffwrdd o oruchwyliaeth y darparwr gwaith arferol.

Y ffigyrau cyfwerth â pherson llawn (FPE) yw'r holl ffigyrau ar staff. Gall unigolion fod â mwy nag un contract gyda darparwr a gall pob contract gynnwys mwy nag un gweithgaredd. Mewn dadansoddiadau mae cyfrifau staff wedi cael eu rhannu ymhlith y gweithgareddau yn gymesur â'r ffigwr cyfwerth ag amser llawn a ddatganwyd ar gyfer pob gweithgaredd. Cyfrifau FPE yw canlyniad hyn.

Ceir rhagor o wybodaeth am y boblogaeth hon yn y diffiniadau staff ar wefan HESA.

## Strategaeth Dalgrynnu

Mae'r data a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn dilyn egwyddorion Methodoleg Talgrynnu Safonol HESA. Mae'r strategaeth wedi'i bwriadu i atal gwybodaeth bersonol am unrhyw unigolyn rhag cael ei datgelu.

Mae hyn yn golygu:

- Bod cyfrifau myfyrwyr a staff wedi'u talgrynnu i luosrif agosaf 5.
- Bod canrannau wedi'u cyfrifo yn seiliedig ar y cyfrifau heb eu talgrynnu a heb gynnwys gwerthoedd anhysbys. Ni chyhoeddir canrannau os mai ffracsiynau o grŵp bach o bobl (llai na 22.5) ydynt.
- Defnyddir y fethodoleg dalgrynnu hon ar gyfer cyfansymiau hefyd. O ganlyniad, efallai na fydd swm y rhifau ym mhob rhes neu golofn yn cyfateb yn union i'r cyfanswm a ddangosir.

## Gwybodaeth am ansawdd

## Datganiad cydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau

Rheoleiddir ein hymarfer ystadegol gan y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau (OSR). Mae OSR yn pennu'r safonau o ran dibynadwyedd, ansawdd a gwerth yn y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau y dylai holl gynhyrchwyr ystadegau swyddogol ymlynu wrtho.

Mae ein holl ystadegau'n cael eu cynhyrchu a'u cyhoeddi yn unol â nifer o ddatganiadau a phrotocolau i wella dibynadwyedd, ansawdd a gwerth. Nodir y rhain yn Natganiad Cydymffurfio Medr â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau.

Mae'r ystadegau swyddogol hyn yn dangos y safonau a ddisgwylir o ran dibynadwyedd, ansawdd a gwerth yn y ffyrdd canlynol.

## Dibynadwyedd

Mae'r ystadegau hyn wedi cael eu cyhoeddi yn unol â Datganiad Cydymffurfio Medr a'r polisi ar weld ystadegau swyddogol cyn eu rhyddhau.

## Ansawdd a Gwerth

Mae'r adran hon yn darparu crynodeb o wybodaeth am y datganiad ystadegol hwn yn erbyn pum dimensiwn ansawdd: Perthnasedd, Cywirdeb, Amseroldeb a Phrydlondeb, Hygyrchedd ac Eglurder, a Chymharedd a Chydlyniad. Mae'r rhain hefyd yn cwmpasu'r agweddau ar y conglfaen Gwerth yn y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau.

1. Perthnasedd

   Mae'r data yn yr adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o rai o nodweddion cydraddoldeb myfyrwyr a staff yn y sector addysg uwch yng Nghymru. Gellir defnyddio hyn i adnabod pa mor effeithiol yw polisïau penodol sy'n ymwneud â

nodweddion cydraddoldeb mewn addysg uwch, neu i adnabod a yw'r rhai â nodweddion penodol heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch.

2. Cywirdeb

   Cyfrifiadau yn hytrach nag arolygon yw data myfyrwyr a staff HESA, a chan hynny nid oes anghywirdeb oherwydd amcangyfrif. Fodd bynnag, gall gwallau yn y data a gyflwynwyd effeithio ar gywirdeb y data. Caiff hyn ei liniaru â set gynhwysfawr o wiriadau ansawdd, lle cyflwynir ymholiadau i ddarparwyr ynghylch materion posibl er mwyn gallu cael esboniad addas ar gyfer y data, neu gywiro'r data os oes angen.

   Y ffactor arall sy'n effeithio ar gywirdeb yw lle cofnodwyd nodweddion personol fel gwerthoedd anhysbys. Yn ystod y broses casglu data cyflwynir ymholiadau i ddarparwyr AU ynghylch lefelau uchel o werthoedd anhysbys i leihau hyn i'r eithaf lle y bo'n bosibl. Caiff niferoedd y myfyrwyr a staff a gofnodwyd â gwerthoedd anhysbys eu cynnwys yn y daenlen a'r dangosfwrdd PowerBI fel bod graddfa'r rhain yn eglur i ddefnyddwyr.

3. Amseroldeb a phrydlondeb

   Mae'r data yn y datganiad hwn yn cyfeirio at ddata myfyrwyr a staff hyd at flwyddyn academaidd 2022/23. Gan bod casgliadau data myfyrwyr a staff HESA yn gasgliadau ôl-weithredol ceir oediad rhwng y flwyddyn academaidd a'r adeg pan ellir trefnu bod y data ar gael. Roedd yr oediad hwn yn fwy estynedig ar gyfer y cyhoeddiad hwn o ganlyniad i ddau ffactor:

   - Oedi cyn casglu data myfyrwyr o ganlyniad i roi'r rhaglen Dyfodol Data ar waith. Y canlyniad oedd bod data ar gael yn hwyrach nag arfer.
   - Sefydlu Medr. Cyn y datganiad hwn, roedd yr ystadegau hyn yn cael eu cyhoeddi gan CCAUC. Yn wahanol i CCAUC, mae Medr yn gynhyrchydd Ystadegau Swyddogol ac fe wnaeth sefydlu prosesau priodol ar gyfer hyn, yn ogystal â sefydlu Medr yn gyffredinol, gyfrannu at yr angen am fwy o amser i gynhyrchu'r dadansoddiad hwn.

   Ni fydd yr ail o'r ffactorau hyn yn effeithio ar fersiynau o'r datganiad hwn yn y dyfodol, a bydd yr oedi a oedd yn gysylltiedig â'r rhaglen Dyfodol Data'n lleihau wrth i'r broses casglu data newydd ymsefydlu'n fwy.

4. Hygyrchedd ac eglurder

   Cyhoeddwyd rhag blaen fod y datganiad ystadegol hwn ar ddod a hynny ar galendr datganiadau ystadegol Llywodraeth Cymru

   I gyd-fynd â'r adroddiad hwn ceir dangosfwrdd PowerBI a thaenlen y ceir mynediad atynt ill dau ar wefan Medr.

5. Cymharedd a chydlyniad

   Gan bod casgliadau data myfyrwyr a staff HESA yn gasgliadau data ledled y DU gyfan, gellir cymharu'r ystadegau hyn â dadansoddiad tebyg o ddata cydraddoldeb ar gyfer darparwyr Addysg Uwch ledled y DU sydd ar gael ar wefan Data Agored HESA.

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru

2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government